



Cyfarfod

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 26AIN TACHWEDD, 2020

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 19 Tachwedd 2020)

IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Elfed Williams (Cadeirydd)

Steve Collings

Annwen Hughes

Edgar Wyn Owen (Eilydd)

Aelodau Lleol

Y Cynghorydd Dafydd Meurig

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryn ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO

5 - 7

Distyllfa Aber Falls, Station Road, Abergwyngregyn

I ystyried y cais

TREFN MEWN GWRANDAWIADAU I WYRO TRWYDDED

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
6. Gwahoddiad i bob ymgynghorai gefnogi sylwadau ysgrifenedig
7. Gall aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.
8. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

Atgoffir pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

- 1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
- 2. Diogelwch y Cyhoedd;**
- 3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
- 4. Amddiffyn plant rhag niwed:**

Eitem 4

| | |
|------------------|---|
| PWYLLGOR: | IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG |
| DYDDIAD: | 26/11/20 |
| TEITL: | CAIS AM DRWYDDED EIDDO - DISTYLLFA, ABER FALLS |
| PWRPAS: | ER PENDERFYNIAD |
| AWDUR: | PENNAETH AMGYLCHEDD |

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Distyllfa Aber Falls, Station Road, Abergwynnregyn, LL33 0LB gan yr ymgeisydd Christopher James Wright. Mae'r ymgeisydd yn ceisio amrywiad i'r trwydded eiddo presennol (ar gyfer siop drwyddedig gwerthiant alcohol oddi ar y safle), i addasu oriau ac i alluogi yfed alcohol ar y safle. Crëwyd canolfan ymwelwyr newydd, *bistro* a bar a bwriedir cynnig llogi gofod ar gyfer digwyddiad neu weithgareddau preifat.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo, dangos ffilmiau, cerddoriaeth byw a wedi recordio, perfformiadau dawns a darparu lluniaeth hwyr y nos.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd un gwrthwynebiad i'r cais, a cytunodd yr ymgeisydd i amodau gwarchod y cyhoedd o ran cyfaddawdu gyda'r oriau agor. Nid oedd sylwadau na gwrthwynebiadau gan yr Heddlu na'r Gwasanaeth Tân.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

| <u>Trwydded Presenol/Current Licence</u> | | <u>Trwydded Arfaethedig/Proposed Licence</u> | |
|---|---------------|--|---------------|
| Oriau Agor / Opening Hours | | | |
| Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 18:00 | Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 18:00 | Dydd Llun/Monday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 18:00 | Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 18:00 | Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 18:00 | Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 18:00 | Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 22:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 18:00 | Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 22:00 |
| Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities: | | | |
| | | Ffilmiau/Films: Dan do / Indoors | |
| | | Dydd Sul/Sunday | - |
| | | Dydd Llun/Monday | - |
| | | Dydd Mawrth/Tuesday | - |
| | | Dydd Mercher/Wednesday | - |
| | | Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 22:00 |
| | | Dydd Gwener/Friday | - |
| | | Dydd Sadwrn/Saturday | - |
| | | Cerddoriaeth Fyw/Live Music: Dan do ac Awyr Agored / Indoors and Outdoors | |
| | | Dydd Sul/Sunday | - |

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Llun/Monday | - |
| Dydd Mawrth/Tuesday | - |
| Dydd Mercher/Wednesday | - |
| Dydd Iau/Thursday | 12:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 12:00 - 00:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 12:00 - 00:00 |

Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music:

Dan do / Indoors

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Llun/Monday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 22:00 |

Perfformiadau Dawns/Performance of Dance:

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Llun/Monday | - |
| Dydd Mawrth/Tuesday | - |
| Dydd Mercher/Wednesday | - |
| Dydd Iau/Thursday | - |
| Dydd Gwener/Friday | - |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 22:00 |

Unrhyw beth sy'n debyg i disgrifiad (e), (f) neu (g)/Anything of a similar description to that falling within (e), (f) or (g): Dan do ac Awyr

Agored / Indoors and Outdoors

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 12:00 - 22:00 |
| Dydd Llun/Monday | - |
| Dydd Mawrth/Tuesday | - |
| Dydd Mercher/Wednesday | - |
| Dydd Iau/Thursday | 12:00 - 22:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 12:00 - 22:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 12:00 - 22:00 |

Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night

Refreshments: Dan do ac Awyr Agored / Indoors and Outdoors

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Llun/Monday | - |
| Dydd Mawrth/Tuesday | - |
| Dydd Mercher/Wednesday | - |
| Dydd Iau/Thursday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 10:00 - 22:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 10:00 - 22:00 |

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo / Both on and off the Premises

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 18:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 18:00 |

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo / Both on and off the Premises

| | |
|------------------------|---------------|
| Dydd Sul/Sunday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Llun/Monday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Mawrth/Tuesday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Mercher/Wednesday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Iau/Thursday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Gwener/Friday | 08:00 - 00:00 |
| Dydd Sadwrn/Saturday | 08:00 - 00:00 |

2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Fe fydd mynediad i'r safle wedi ddiogelu â giât cloëdig, a bydd mynediad i'r eiddo drwy ddrws wedi'i ddiogelu gan aelodau o staff. Bydd System TCC yn weithredol ac ymgymerir patrolau diogelwch rheolaidd.
- Cynhelir polisi her 25 gwerthiant alcohol yn barod, a bu'r distyllfa yn cydymffurfio a pholisïau *Drinkaware* a chodau y grŵp *Portman*.
- Cynhelwyd eisoes polisi cynhwysfawr Iechyd a Diogelwch a lleolwyd allanfeydd tan yn y manau priodol. Cwtogir y nifer o gwsmeriaid i atal gorlenwi.
- Nid yw'r eiddo wedi leoli yn agos i ardal breswyl a byddem yn cau drysau a ffenestri a leihau'r sŵn rhag yr ychydig o breswylfeydd gerllaw.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|------------------------|-----------------------------------|
| Preswylwyr cyfagos | E-bost - gwrthwynebiad |
| Cynghorydd Cymuned x 2 | E-bost – gwrthwynebiad a sylwadau |
| Gwarchod y Cyhoedd | Sylwadau ac amodau |

3.2 Preswylwyr cyfagos a'r cyngor cymuned

Cafwyd 3 e-bost yn gwrthwynebu'r cais ar sail yr amcanion trwyddedu o:

- Atal niwsans cyhoeddus
- Diogelwch y cyhoedd

Mynegwyd pryderon ar faterion gwrthgymdeithasol o ran llygredd golau a sŵn, yn benodol o ran digwyddiadau allanol gyda adloniant a cherddoriaeth. Amlygwyd pryder yn sgil diffiniad digwyddiadau achlysurol a bydd hyn hefyd yn cynyddu traffig a felly sŵn pellach. Oherwydd lleoliad gul y safle mae pryder o ran mynediad i geir a felly diogelwch y cyhoedd, gan fod lorïau yn llwytho a dadlwytho yno.

Gwarchod y Cyhoedd

Derbyniwyd sylwadau ac amodau gan yr Adran Gwarchod y Cyhoedd. Cytunodd yr ymgeisydd i gyfaddawdu drwy cwtogi orïau agor a chyflenwi alcohol, tynnu oddi ar y cais cerddoriaeth byw, perfformiadau dawn a/neu unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg. Cytunwyd y bydd rhaid rhoi cais rhybudd digwyddiad dros dro os yn bwriadu cynnal gŵyl neu digwyddiad tebyg o'r fath, ac fod angen adolygu polisi Iechyd a Diogelwch o ran trafndiaeth a chwsmeriaid ar y safle.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda Adran Gwarchod y Cyhoedd ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.